



Deddf Iaith Newydd i'r Gymraeg Dyma'r Cyfle!

Cynigion ar gyfer Deddf Iaith Newydd

Tachwedd 2005

**Cyhoeddwyd gan
Grwp Deddf Iaith
Cymdeithas yr Iaith Gymraeg**



PEN ROC · RHODFA'R MÔR · ABERYSTWYTH · CEREDIGION · SY23 2AZ

01970 624501

dafydd@cymdeithas.com

cymdeithas.com/deddfiaith

1. Cyflwyniad

Mae Cymdeithas yr Iaith Gymraeg yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i sicrhau **Deddf Iaith Newydd** gynhwysfawr er mwyn gosod seiliau cadarn ar gyfer normaleiddio defnydd o'r Gymraeg.

Pob dydd ceir enghreifftiau di-rif o ddiffyg statws y Gymraeg a methiant Cynlluniau Iaith Gymraeg i sicrhau gwasanaethau yn Gymraeg. Mae Deddf Iaith 1993 wedi chwythu ei phlwc. Mae'r amser wedi dod am ddeddfwriaeth newydd.

Wrth gwrs, ni all deddf iaith ar ei phen ei hun gyflawni'r cyfan sydd angen ei wneud i greu dyfodol i'r iaith Gymraeg. Ond, cred Cymdeithas yr Iaith nad oes modd gwireddu y weledigaeth a amlinellir yn Iaith Pawb(2003)¹ heb Ddeddf Iaith Newydd;

"Mae'n gweledigaeth yn un fentrus [sic]...ein desiyfiad - Cymru gwbl ddwyieithog, sef gwlad lle y gall pobl ddewis byw eu bywydau naill ai drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg neu'r ddwy iaith a lle mae bodolaeth y ddwy iaith yn fater o falchder a chryfder i ni i gyd."(t. 1).

Crynodeb o'n galwadau am gynnwys Deddf Iaith Newydd

Deddf iaith i'r Gymraeg ddylai fod un o'r deddfau cyntaf mae'r Cynulliad yn ei pharatoi o dan y trefniadau newydd a fwriedir ar gyfer ymestyn pwerau'r Cynulliad.² Galwn am Ddeddf sy'n cynnwys;

- ☛ datganiad clir mai'r Gymraeg yw priod iaith Cymru
- ☛ rhoi statws swyddogol i'r Gymraeg
- ☛ sefydlu hawl yr iaith Gymraeg i oroesi fel iaith gymunedol a diffinio hawliau ieithyddol sylfaenol i bobl Cymru fedru defnyddio a chael mynediad i'r Gymraeg ym mob agwedd ar fywyd
- ☛ ei gwneud yn anghyfreithlon i wahaniaethu yn erbyn defnydd o'r Gymraeg
- ☛ cyfrifoldeb i ddarparu nwyddau, cyfleusterau, gwybodaeth a gwasanaethau Cymraeg yn unol â hawliau defnyddwyr, nid yn ôl statws y darparwr(wyr)
- ☛ sefydlu swyddogaeth a swyddfa Comisiynydd y Gymraeg i ddatblygu gwaith Bwrdd yr Iaith Gymraeg
- ☛ sefydlu Cyngor ar gyfer y Gymraeg sy'n ddemocrataidd a chynhwysol

Lawnsiodd Cymdeithas yr Iaith y cynigion yma ym Mehefin 2005 a chafwyd ymateb cyhoeddus cadarnahol dros ben. Fodd bynnag mae Llywodraeth y Cynulliad yn mynnu nad oes angen newid yn y ddeddf ac felly mae'r ymgyrch yn dwysau gyda nifer o'n

¹Iaith Pawb, Strategaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer yr iaith Gymraeg, 2003

²Trefn Lywodraethu Well i Gymru, Swyddfa Cymru, 2005

haelodau yn gwynebu achosion llys yn sgil gweithredu uniongyrchol di-drais. Yn Hydref 2005, cynhaliwyd Rali Genedlaethol gyda chefnogaeth eang. Cynyddu mae'r pwysau cyhoeddus dros ddeddfwriaeth newydd gyda nifer fawr o Gymry amlwg wedi datgan cefnogaeth.

2. Dyma'r Cyfle

Yn sgil cyhoeddiad y Llywodraeth ei fod am ddileu Bwrdd yr Iaith Gymraeg, mae'r Gymraeg ar yr agenda ddeddfwriaethol am y tro cyntaf yn hanes y Cynulliad.

Mewn cyfarfod gyda Chymdeithas yr Iaith yn ystod mis Ebrill 2005, esboniodd Alun Pugh, y Gweinidog dros Ddiwylliant, Chwaraeon a'r Iaith Gymraeg, mai bwriad y Llywodraeth yw creu swydd Dyfarnydd Cynlluniau Iaith Gymraeg er mwyn cynnig elfen o "*annibyniaeth*" wrth ddod â swyddogaeth y Bwrdd i mewn i'r Cynulliad. Yn hyn o beth, roedd yn bendant mai'r hyn oedd ganddo dan sylw oedd cynnal ymarferiad tacluso. Nodwn eiriau'r Gweinidog i'r Cynulliad pan gyflwynodd bwriad y Llywodraeth i sefydlu swydd y Dyfarnydd;

*"It is likely that the Bill would place a duty on the Assembly to fund the Dyfarnydd and the office of the Dyfarnydd. As the exact role of the Dyfarnydd is yet to be defined, it is too early to be able to provide estimates of costs. However, it is expected that the Dyfarnydd will have a small office to provide administrative support, and costs are likely to be modest."*³

I bob pwrpas felly, ymddengys mai mater technegol yn unig yw sefydlu swyddfa Dyfarnydd Cynlluniau Iaith Gymraeg yn wyneb bwriad y Llywodraeth i ddileu'r Bwrdd. Cred Cymdeithas yr Iaith fod Llywodraeth y Cynulliad yn colli cyfle allweddol i ymateb i'r angen am Ddeddf Iaith Newydd gynhwysfawr fydd yn sefydlu'r Gymraeg fel priod iaith Cymru, ac yn sefydlu hawliau i bobl Cymru ddefnyddio'r Gymraeg ym mhob agwedd ar fywyd.

Aeth dros deng mlynedd heibio ers i Lywodraeth John Major yn San Steffan basio Deddf yr Iaith Gymraeg 1993. Ar y pryd, gwrthododd Rhodri Morgan bleidleisio o blaid y ddeddf honno gan ddweud;

*"The Government calls this a Welsh Language Bill, but it would be better described as a Welsh Language Quango Bill. What one could call a Quango for the lingo We shall be abstaining tonight because we hope to have the opportunity before long to do the job properly. That will be done when we revisit the question of a Welsh language measure when we are in Government."*⁴

Fel noda Rhodri Morgan, prif fwriad Deddf Iaith 1993 oedd creu Bwrdd yr Iaith Gymraeg nid sefydlu hawliau ni'r Gymraeg. Wrth i Lywodraeth Rhodri Morgan ddileu Bwrdd yr Iaith, mae Deddf Iaith 1993 wedi ei disbyddu.

³ Cynigion Cabinet Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer Deddfwriaeth 2005/2006

⁴ Hansard

Pob dydd, profir yr angen am ddeddfwriaeth newydd gynhwysfawr i'r Gymraeg. Dyma nodi rhai esiamplau o sefyllfaoedd sydd wedi dod i'n sylw yn ddiweddar;

- ☛ Profion datblygiad a gwasanaethau iechyd i blant ond ar gael trwy gyfrwng y Saesneg mewn sawl ardal yng Nghymru
- ☛ Gwrthodiad Cyllid y Wlad i ddarparu gwasanaethau treth ar lein yn Gymraeg a ffurflrenni sylfaenol megis y ffurflen hawlio credydau plant
- ☛ Gwasanaethau cwmnïau ffonau symudol dim ond ar gael yn Saesneg
- ☛ Mwyafrif cyrsiau addysg ôl 16 dim ond ar gael yn Saesneg yn y rhan fwyaf o golegau yng Nghymru
- ☛ Gwasanaethau gofal ond ar gael yn Saesneg mewn sawl ardal yng Nghymru
- ☛ Dim darpariaeth gan gwmnïau bancio i weinyddu busnes yn Gymraeg ar lein
- ☛ Penodiadau i swyddi allweddol ym maes gwasanaethau cyhoeddus yn anwybyddu'r angen am amod iaith er gwaethaf bodolaeth Cynlluniau Iaith Gymraeg
- ☛ Gwasanaethau trydydd parti yn torri amod iaith Cynlluniau Iaith Gymraeg y cyrff cyhoeddus sy'n eu comisiynu
- ☛ Mudiadau gwirfoddol yn gwrthod neu yn methu darparu gweithgareddau yn Gymraeg
- ☛ Amwysedd ynghylch dilysrwydd statws dogfennau a llythyrau sydd wedi eu ysgrifennu yn Gymraeg o fewn y sectro breifat

Ar Fawrth 16eg , 2005 cynhaliodd Cymdeithas yr Iaith Fforwm Genedlaethol i drafod Deddf Iaith Newydd. Clywodd mynychwyr y Fforwm Meri Huws, Cadeirydd Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn cyfeirio at fwriad y Llywodraeth i ddileu'r Bwrdd a sefydlu swydd y Dyfarnydd yn y modd yma; *'nid yw'n gwestiwn pa un ai a fydd deddf iaith ai peidio, ond yn hytrach, pa fath o ddeddf iaith?'* Yn fwy diweddar, adroddwyd yn y wasg fod Meri Huws mewn cyfarfod o'r Bwrdd wedi galw am, *'adolygiad o'r ddeddf iaith bresennol.'*⁵

Yn ystod Eisteddfod Genedlaethol Eryri traddododd yr Athro Colin Williams, arbenigwr byd eang ar gynllunio ieithyddol ac aelod o'r Bwrdd Iaith ddarlith yn amlinellu'r achos dros Ddeddf Iaith Newydd gan gydfynd â llawer iawm o gynigion Cymdeithas yr Iaith.

Ym Mis Medi 2005, cyhoeddodd y Gymdeithas gyfres o hysbysebion cyhoeddus yn cynnwys enwau dros gant o Gymry amlwg a gefnogai'r alwad am;

⁵ Golwg, Ebrill 28 2005

- 🔗 statws swyddogol i'r Gymraeg
- 🔗 hawl sylfaenol i addysg Gymraeg ac i ddefnyddio'r Gymraeg yn y sector cyhoeddus a phreifat
- 🔗 Comisiynydd i'r Gymraeg.

Ers hynny, cafwyd datganiadau pellach o gefnogaeth gan unigolion a chyrff.

3. Cynigion Cymdeithas yr Iaith ar gyfer cynnwys Deddf Iaith Newydd gynhwysfawr – Nodiadau Esboniadaol

Egwyddorion Sylfaenol

Cydnabod y Gymraeg yn Briod Iaith Cymru

Y Gymraeg yw priod iaith Cymru. Mae hi'n etifeddiaeth gyffredin i holl drigolion Cymru, yn siaradwyr Cymraeg ai peidio. Mae gan y Gymraeg berthynas unigryw â Chymru. Mae hi'n un o'r elfennau sy'n gwneud Cymru yn arbennig fel gwlad ac felly mae hi'n symbol grymus o'n hunaniaeth Gymreig.

Mae Cymru'n wlad amlieithog, fel y bu erioed i raddau gwahanol rhwng ieithoedd y Rhufeiniad, y Gwyddelod, y Llychlynwyr, y Saeson, y Normaniaid a'r Fflemingiaid a'r ieithoedd a siaredir gan gymunedau ethnig Cymru – ond, drwy gydol ei hanes mae'r Gymraeg wedi bod yn gyfrwng byw ac yn brif sail ein hunaniaeth genedlaethol.

Nid yw'r egwyddor hon o briod iaith yn unigryw i Gymru. Dyma'r egwyddor sylfaenol sy'n sail i ddeddfwriaeth ieithyddol yng Ngwlad y Basg a Chatalunya yn ogystal â'r datganiad Byd-eang o Hawliau Ieithyddol a gyflwynwyd i UNESCO.

Credwn fod yr egwyddor yn un bwysig a hynny yn sgil ei grym symbolaidd ac ymarferol. Ar y lefel symbolaidd, byddai cydnabod y Gymraeg yn briod iaith Cymru yn egluro'r teimlad sydd gan bobl Cymru tuag at y Gymraeg a'r berthynas arbennig ac unigryw sydd gan yr iaith â'r darn yma o'r byd. Ar y lefel ymarferol, byddai cynnwys yr egwyddor hon mewn deddf iaith yn cynnig sail normadol a chyfreithiol gadarn i'r math o gynlluniau y byddem yn dymuno eu gweithredu yn y dyfodol. Er enghraifft, gall yr egwyddor o briod iaith gynnig cyfiawnhad ar gyfer mesurau sy'n rhagfarnu'n gadarnhaol o blaid y Gymraeg ynghyd â gosod cynsail ar gyfer sicrhau bod pawb yng Nghymru i gael mynediad i gyrsiau dysgu Cymraeg yn y gweithle ac fel arall.

Cydnabod y Gymraeg yn iaith swyddogol yng Nghymru

Dylai unrhyw ddeddfwriaeth newydd gynnwys datganiad clir sydd yn nodi bod y Gymraeg yn iaith swyddogol yng Nghymru. Mae'r galw hwn am eglurder am statws cyfreithiol y Gymraeg yn mynd yn ôl i Adroddiad Hughes Parry(1965) a does dim un ddeddf hyd yn hyn wedi draparu'r eglurder hwnnw. Mae statws y Gymraeg yn parhau i fod yn annelwig ac yn gyfyngedig. Er enghraifft, mae Deddf Iaith 1993 yn sôn am drin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal o dan amodau digon cyfyng, sef:

- wrth gynnal busnes cyhoeddus a gweinyddu cyfiawnder;

- cyn belled ag y bo'n 'briodol dan yr amgylchiadau ac yn rhesymol ymarferol'.

Mae cyfyngu statws y Gymraeg yn y fath fodd i rai meysydd penodol, gan osod amodau arbennig, yn ffurfioli'r ffaith nad yw'r iaith yn cael ei thrin yn gyfartal â'r Saesneg. Mae rhai yn dadlau nad oes angen datganiad o statws swyddogol ar y Gymraeg, gan nad yw'r Saesneg yn meddu ar ddatganiad o'r fath. Ond, mae'r Saesneg eisoes yn iaith swyddogol *de facto* yng Nghymru, gan mai Saesneg yw unig iaith Senedd y Deyrnas Gyfunol, Saesneg a ddysgir i ffoaduriaid, Saesneg yw iaith cofnodion y llysoedd, a rhaid gallu siarad Saesneg i wasanaethu ar reithgor.

Nid oes gan y Deyrnas Gyfunol gyfansoddiad ysgrifenedig a'r traddodiad hwnnw o gymryd pethau'n ganiataol oni phroffir yn wahanol sydd yn gyfrifol am y ffaith nad oes datganiad ffurfiol o statws swyddogol gan y Saesneg, fel sydd gan ieithoedd eraill mewn gwladwriaethau sydd â chyfansoddiad ysgrifenedig. Eto i gyd, nid yw dibynnu ar yr arfer hwn yn ddigonol er mwyn cynnal statws y Gymraeg.

O ganlyniad, credwn fod angen i ddeddf newydd ddatgan bod y Gymraeg yn iaith swyddogol yng Nghymru. Fel yn achos egwyddor priod iaith, byddai hyn yn bwysig o safbwynt symbolaidd ac ymarferol. Byddai yn gam symbolaidd arall sy'n dangos y gwerth rydym yn rhoi ar ein hiaith ac yn awyddu clir i'r byd fod Cymru'n wlad ddwyieithog a bod angen gwasanaethau dwyieithog arni.

Ymhellach, byddai yn gam ymlaen o safbwynt ymarferol. I ddechrau, byddai'n dileu'r dryswch sydd ym meddyliau'r cyhoedd ar hyn o bryd ynglŷn â statws cyfreithiol y Gymraeg. Daw hyn i'r amlwg dro ar ôl tro, er enghraifft wrth i gyflogwyr geisio gwahardd aelodau o staff rhag siarad Cymraeg, neu hyd yn oed, wrth i weision sifil yn y Cynulliad ddadlau mai'r Saesneg yw unig iaith fewnol swyddogol y sefydliad.

Byddai statws swyddogol hefyd yn gymorth i'r iaith ar y lefel Ewropeaidd. Ar hyn o bryd mae Senedd Ewrop a'r Comisiwn Ewropeaidd yn gwahaniaethu yn erbyn dinasyddion a chymunedau Ewrop sydd yn siarad iaith wahanol i iaith swyddogol eu gwladwriaeth, drwy gau yr ieithoedd hyn allan o rai rhaglenni gwariant. Rydym am weld y Gymraeg yn cael statws iaith gwaith o fewn yr Undeb Ewropeaidd fel a gyhoeddwyd yn ddiweddar yn achos y Wyddeleg. Nodwn eironi'r ffaith bod Catalonia a Gwlad y Basg a Galicia wedi llwyddo i dderbyn cydnabyddiaeth Ewropeaidd gan gyngor yr Undeb Ewropeaidd i'w statws swyddogol yn y flwyddyn y mae'r Deyrnas Gyfunol yn llywydd ar yr Undeb Ewropeaidd.

Ymhellach ac efallai yn bwysicach, os ydym yn datgan mewn deddf bod y Gymraeg yn iaith swyddogol a bod disgwyl iddi gael ei thrin yn gyfartal â'r Saesneg, mae hynny yn rhoi pwysau arnom i ddangos sut ydym yn bwriadu cynnal y nod hwn – hynny yw sefydlu hawliau iaith sylfaenol.

Sefydlu hawliau ieithyddol sylfaenol i bobl Cymru

Nodwn fod Iaith Pawb (2003)⁶ yn siarad yn nhermau'r angen i 'hyrwyddo hawliau' unigolion i ddefnyddio'r Gymraeg;

"Bydd trydydd llinyn ein strategaeth yn canolbwyntio ar hawl yr unigolyn i ddefnyddio'r iaith o'u dewis a chyfrifoldeb sefydliadau o fewn cymdeithas Cymru i gydnabod a hyrwyddo hawl yr unigolyn i wneud hyn" (t.37).

Fodd bynnag, realiti'r sefyllfa yw bod cwmnïau a chyrff yng Nghymru yn aml yn amharod neu yn wir yn gwrthod darparu gwasanaethau yn Gymraeg **am nad oes rheidrwydd** arnynt i wneud hynny. Dyma ymatebion nodweddiadol;

*"There is no obligation on Orange or any company operating in Wales to provide bilingual services."*⁷

*" We are unable to produce our bills/lieraure in any language other than English "*⁸

Yn allweddol, nid yw bodolaeth Cynllun Iaith Gymraeg yn sicrwydd y bydd modd i berson ddefnyddio'r Gymraeg wrth ddelio gyda'r corff hwnnw. Dywed yr Asiantaeth Safonau Gyrru yn eu Cynllun Iaith;

"Mae'r Asiantaeth Safonau Gyrru wedi mabwysiadu'r egwyddor, wrth gynnal busnes cyhoeddus yng Nghymru, y bydd yn trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal."

Ond, er gwaethaf y datganiad yma mae ASG yn parhau i wrthod cyhoeddu deunydd adolygu Gymraeg at brofion gyrru ysgrifenedig.

Rhaid i Ddeddf Iaith Newydd sefydlu cyfres o hawliau sylfaenol i'r Gymraeg a chyfres o hawliau i bobl Cymru fedru defnyddio'r Gymraeg a hynny yn gydnaws a diogelu hawliau dynol pobl Cymru. Nodwn ddatganiad UNESCO;

"International Human Rights Law plays an important role in setting standards for linguistic rights and, especially, for the protection and promotion of the identity of linguistic minority groups. It provides the normative framework for developing principles of democratic governance and multicultural policies aimed at managing ethno-linguistic conflict."

Mae adroddiad gwerthuso Cyngor Ewrop ar ymateb y Deyrnas Unedig i Siarter Cyngor ar Ieithoedd Llai yn awgrymu fod ymateb Llywodraeth y Cynulliad yn ddiffygiol ac maent yn argymhell y dylai'r Llywodraeth weithredu yn statudol mewn sawl maes cyhoeddus;

⁶ Iaith Pawb, Strategaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer yr iaith Gymraeg, 2003

⁷ Ymateb llyfarydd cwmni Orange mewn protest Cymdeithas yr Iaith, 2004

⁸ Ymateb gan NTL, 2004

“ with regard to Scottish Gaelic and Welsh, establish a system for monitoring the measures taken and progress achieved in regional or minority language education, including the production and publication of reports of the findings”

“ improve the use of Welsh in social care facilities, particularly hospitals and care of the elderly”

Cred Cymdeithas yr Iaith ei fod yn fater o gyfiawnder amlwg fod **pawb yng Nghymru** yn meddu'r;

- ☛ hawl i weithio drwy'r Gymraeg,
- ☛ yr hawl i addysg Gymraeg,
- ☛ yr hawl i dderbyn gofal iechyd a chefnogaeth cymdeithasol yn Gymraeg,
- ☛ yr hawl i ddysgu Cymraeg,
- ☛ a'r hawl i gael rheithgor yn Gymraeg.

Credwn hefyd mai gwir gryfder Deddf Iaith Newydd fyddai iddi nid yn unig sefydlu hawliau ar gyfer unigolion, ond hefyd sefydlu hawl sylfaenol i'r Gymraeg **oroesi fel iaith gymunedol**. Os ydi'r Gymraeg i fyw, mae'n rhaid i gymunedau Cymraeg fyw, ac yn wir, rhaid i'r Gymraeg gael yr **hawli i gael ei hadfywio** fel rhan integral a sylfaenol o fywyd pob cymuned yng Nghymru. Byddai sicrhau'r hawliau cymunedol a chasgliadol yma yn gosod cysail i gryfhau'r ddarpariaeth bresennol mewn deddfwriaeth gynllunio 'i ystyried y Gymraeg fel ffactor cynllunio'⁹ ac yn gysail hefyd ar gyfer sefydlu Deddf Eiddo i Gymru.¹⁰

Y gwendid mawr ar hyn o bryd yw nad yw Deddf Iaith 1993 yn fesur sydd wedi sefydlu lefel sylfaenol o hawliau ieithyddol. Amcan y ddeddf yw 'cymell, hyrwyddo a marchnata'r defnydd o'r Gymraeg' yn hytrach na galluogi pobl Cymru i ddefnyddio'r Gymraeg trwy sefydlu hawliau. Mae hyn yn amlygu gwreiddiau neo-ryddfrydol y ddeddf – traddodiad sydd yn gweld rôl y wladwriaeth fel 'hyrwyddwr hyd-braich' yn hytrach na gweithredwr sydd yn gwarantu hawliau. Felly, yn llygaid y ddeddf, rydym ni fel siaradwyr Cymraeg angen cael ein cymell a'n haddysgu i optio mewn i'r Gymraeg ac i ofyn am fwy o wasanaethau Cymraeg, yn hytrach na chael ein **grymuso** a'n **galluogi**– drwy hawliau – i fedru defnyddio'r Gymraeg yn naturiol.

Yn cyd-fynd â hyn wrth gwrs mae'r angen i ddeddfwriaeth newydd osod disgwyliadau clir mewn rheoliadau mewn dull llawer mwy trylwyr nag a geir ar hyn bryd mewn perthynas â Deddf yr Iaith Gymraeg 1993.

⁹ Nodyn Technegol Llywodraeth Cynulliad Cymru, Y Gymraeg yn y Drefn Gynllunio

¹⁰ Gweler dogfen Deddf Eiddo, Cymdeithas yr Iaith Gymraeg ar asfel we'r Gymdeithas; www.cymdeithas.com

Ac ar ben hyn, bydd angen i Ddeddf Iaith Newydd gynnwys y grym i gyfeirio achosion o gŵyn at Gomisinydd Iaith gan roi pwerau i'r Comisiynydd gynnal ymchwiliadau a gwrandawladau er dod i ddyfarniad.

Rhoi statws cydraddoldeb a phwerau gwrth wahaniaethu i'r Gymraeg

Dros y degawd diwethaf cafwyd twf arwyddocaol yn nhermau ymgyrchu ac yn sgil hynny polisi, a deddfwriaeth gwrthwahaniaethol er hybu cydraddoldeb o ran rhyw, rhwyioldeb, hil ac anabledd. Mae hyn i'w weld ar lefel Ewropeaidd a Phrydeinig. Yn gyfredol, ceir mesurau ar y gweill gan Lywodraeth San Steffan o ran crefydd ac oedran hefyd.

Awgrymir mewn sawl dogfen o eiddo Llywodraeth y Cynulliad y dylid trin y Gymraeg fel petai'n perthyn i deulu'r cydraddoldebau. Er enghraifft, wrth drafod datblygu gwasanaethau cyhoeddus dywedir;

"O ran defnyddwyr unigol, rhaid i'r gwaith o wella gwasanaethau cyhoeddus fod yn seiliedig ar...yr egwyddor o gydraddoldeb rhwng y Gymraeg a'r Saesneg, a chyflawni'r holl ddyletswyddau eraill o ran cydraddoldeb".¹¹ (t. 10).

Ond, er gwaethaf dyletswydd benodol y Cynulliad i sicrhau hawliau cyfle cyfartal ar gyfer pawb yng Nghymru¹² a'r ffaith fod Bwrdd yr Iaith yn aelod sefydlog o Bwyllgor Cyfle Cyfartal y Cynulliad, nid ydyw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn gyfartal â'r Saesneg mewn gwirionedd.

Gyda dyfodiad deddfau fel Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995 a'r Ddeddf Cydraddoldeb Cyflogaeth (Tueddiad Rhywiol) 2003, gwelwn fod Deddf yr Iaith Gymraeg yn gwbl wan ac aneffeithiol o ran sicrhau hawliau a chyfiawnder i'r Gymraeg a siaradwyr Cymraeg.

Dyma esiampl o'r ieithwedd hawliau ym maes rhywioldeb a chyflogaeth gan Lywodraeth Llundain;

" The new Employment Equality (Sexual Orientation) Regulations are designed to outlaw this kind of unacceptable treatment. They cover employment and training across England, Scotland and Wales, whatever the size of the organisation, whether in the public or the private sector. They represent a significant addition to our domestic equality legislation and they will make a practical difference to the lives of millions of people" ¹³

Dros y misoedd diwethaf gwelwyd deunydd cyhoeddusrwydd a chyhoeddiadau arweiniad rheoliadol Llywodraeth Llundain parthed y Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995.¹⁴ Ynddynt ceir neges glir fod gan bobl anabl hawliau sylfaenol a'i bod yn anghyfreithlon i drin pobl anabl yn llai ffafriol oherwydd eu hanabledd a hynny ym

¹¹ Creu'r Cysylltiadau Llywodraeth cynulliad Cymru, 2004

¹² Adran 120 Deddf Llywodraeth Cymru

¹³ Gerry Sutcliffe, Gweinidog Cysylltiadau Cyflogaeth DTI , Mehefin 2003 o safle we Stonewall; www.stonewall.org.uk

¹⁴ Gweler safle we Comisiwn Hawliau Anabledd, www.drc-gb.org.uk

mhob math o feysydd; cyflogaeth, mynediad at nwyddau, cyfleusterau a gwasanaethau, rheoli, prynu neu rentu tir, ac addysg. Yn arwyddocaol iawn, mae'r hawliau hyn yn berthnasol o ran cyrff cyhoeddus a busnesau preifat fel ei gilydd. Yn ychwanegol, mae'r Comisiwn Hawliau Anabledd a sefydlwyd drwy ddeddf seneddol gan Llundain yn 2000 yn gweithredu mewn ffyrdd sy'n yn dangos ei fod yn gorff tipyn cryfach a mwy beiddgar na chreadigaeth Deddf yr Iaith Gymraeg 1993, Bwrdd yr Iaith Gymraeg. Byddai'n ddigon rwydd i Fwrdd yr Iaith ddangos bod y Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg mewn lluo o sefyllfaoedd er gwaethaf darpariaeth Deddf yr Iaith Gymraeg; "bod y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal". Arwydd o ddiffyg annibyniaeth y Bwrdd oddi wrth Lywodraeth y dydd yw iddo fethu creu sefyllfa lle mae'r Gymraeg yn cael ei thrin o ddifrif fel pob cydraddoldeb arall.

Gallwn weld yn glir, er mwyn sicrhau hawliau ac atal gwahaniaethu ar sail anabledd, rhywioldeb a hil, nid sôn am "*berswadio*" cyrff i gydymffurfio a wneir ond yn hytrach, gorfodi. Rhethreg clir Llywodraeth y Cynulliad a Llywodraeth Llundain wrth fynd i'r afael â newidiadau deddfwriaethol ym mhob maes cydraddoldeb heblaw'r Gymraeg ydyw nad ydyw perswadio yn ddigon da, a'n bod drwy ddibynnu ar berswadio yn unig yn parhau â'r anghyfiawnder.

Dim ond drwy fynd i'r afael â'r **anghyfartaledd grym** sy'n bodoli rhwng y Gymraeg a'r Saesneg a sefydlu mesurau penodol i wrthweithio'r gorthrwm ar y Gymraeg, y gallwn fod yn sicr o werth ac effeithlonrwydd deddf iaith. Nid yw Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 yn siarad iaith grym a gorthrwm. Rhaid i'r Gymraeg fanteisio ar brofiad a dealltwriaeth ymgyrchoedd hawliau y degawd diwethaf ac ymgyrffori'r gwersi hyn mewn Deddf Iaith Newydd.

Rhoi'r cyfrifoldeb i ddarparu nwyddau, cyfleusterau, gwybodaeth a gwasanaethau yn Gymraeg ar y darparwr(wyr) yn unol â hawliau defnyddwyr beth bynnag fo statws y darparwr(wyr)

Yn sylfaenol i'r egwyddor hon, mae'r gred mai nid statws y darparwr sy'n bwysig yn y pen draw – boed yn gyhoeddus, yn breifat neu'n wirfoddol – ond y ffaith ei fod yn cynnig nwyddau, cyfleusterau, gwybodaeth neu wasanaethau i'r cyhoedd. Felly, dylai'r cyfrifoldeb i ddarparu'r pethau hyn drwy gyfrwng y Gymraeg fod yn ddibynnol ar eu natur ac nid ar statws y darparwr. Credwn mai dim ond o dderbyn hyn y gellir cynnig cyfle cyfartal i'r Gymraeg. Mae'r egwyddor hon eisoes wedi cael ei derbyn fel rhan o fesurau eraill. Er enghraifft mae'r Ddeddf Hawliau Anabledd (1995) yn diffinio gwasanaethau cyhoeddus fel unrhyw wasanaeth i'r cyhoedd, neu ran o'r cyhoedd – boed y darparwr yn y sector breifat, y sector gyhoeddus, y sector wirfoddol, neu gyfuniad ohonynt.

Byddai derbyn egwyddor o'r fath yn cydnabod ein bod bellach yn byw mewn oes lle mae natur sefydliadau a'r dull o gynnig gwasanaeth yn newid yn gyflym iawn. Er enghraifft, erbyn heddiw mae'r ffin rhwng yr hyn sy'n 'breifat' a'r hyn sy'n 'gyhoeddus' yn llawer llai eglur yn sgil preifateiddio llawer o'r hen gyfleustodau cyhoeddus (dŵr, nwy, trydan, y rheilffyrdd). Ar ben hynny, yn y dyfodol mae'n bosib y bydd amrywiol gynlluniau 'PFI' yn gwneud y ffin rhwng y gwahanol sectorau yn fwy annelwig fyth. Hefyd wrth gwrs, mae twf y rhyngwyd a gwasanaethau ar lein, sefydlu canolfannau galw tu allan i Gymru oll yn tanseilio llawer o'r tir y tybiwyd y

gellid ei ennill i'r Gymraeg trwy ddarpariaeth Deddf Iaith 1993. O ystyried hyn oll, mae'n anodd gweld sut all deddf sy'n seiliedig ar yr hen raniadau clir – preifat, cyhoeddus neu wirfoddol – gynnal a gwarchod buddiannau siaradwyr Cymraeg i'r dyfodol.

a. Y Sector Breifat

Yn amlwg, os ydym yn derbyn y pwyslais ar natur y gwasanaeth yn hytrach na statws y darparwr, fe fyddai'n golygu bod y ddeddf yn cyffwrdd â'r sector breifat. Ni fyddai hyn yn golygu bod yn rhaid i bob un corff preifat o bob maint ymateb i ofynion deddf newydd yn yr un ffordd av yn ôl yr un amserlen. Ond, fe fyddai'n golygu cydnabod bod y sector breifat hefyd yn cynnig gwasanaethau cyhoeddus.

Bu tipyn o drafod ynglŷn â phriodoldeb deddf iaith sy'n cyffwrdd â'r sector breifat. Barn y Llywodraeth a Bwrdd yr Iaith yw bod dim angen deddfu yma, gan y gellir dibynnu ar berswâd ac ewyllys da. Sech hynny, mae Cymdeithas yr Iaith o'r farn bod y "strategaeth" hon yn ddi-gyfeiriad, yn wastraffus o ran amser ac adnoddau cyhoeddus ac wedi methu â sicrhau hawliau sylfaenol siradwyr Cymraeg i gael nwyddau, cyfleusterau a gwasanaethau yn eu hiaith.

Wrth gwrs, ceir rhai enghreifftiau digon canmoladwy o gwmnïau preifat yn datblygu elfennau sylfaenol o wasanaeth Cymraeg, megis HSBC, BT a Tesco. Eto i gyd, mae angen derbyn mai eithriadau yw'r rhain, mai anghyson a mympwyol yw'r ddarpariaeth ac mai hysbysebu " am ddim " gan y Bwrdd yw'r wobwr am yr ymdrechion hyn. Yn wir, wrth ystyried elw cwmni fel Tesco - £2 biliwn (2004 – 2005) a maint cyllideb Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer Diwylliant, Y Gymraeg a Chwaraeon - £139 miliwn(2005-2006), rhaid cwestiynu moesoldeb heb son am synnwyr cyffredin y Bwrdd yn canmol Tesco am godi ambell i arwydd mewn ambell i siop.

Dadleuir na ddylai'r llywodraeth ymyrryd yn y farchnad. Eto i gyd, mae deddfwriaeth i ddiogelu hawliau menywod, lleiafrifoedd ethnig, pobl anabl a'r amgylchedd eisoes yn bodoli ac yn effeithio ar fusnes a diwydiant. Ymhellach, gwelwyd yn y meysydd hyn bod modd cynorthwyo cwmnïau bach a chanolig eu maint i gydymffurfio â deddfau newydd drwy ostwng trethi busnes a chyflwyno'r newidiadau yn raddol dros gyfnod o amser.

Y duedd ar hyn o bryd yw dadlau y byddai ymestyn deddfwriaeth i'r sector breifat yn tanseilio llwyddiant economaidd – heb gynnig unrhyw fath o dystiolaeth. Dadleuwn ni fod llwyddiant economaidd yn mynd law yn llaw â pholisïau cryf o normaleiddio iaith. Yn y lle cyntaf gellir marchnata gweithlu dwyieithog fel gweithlu sydd yn meddu ar fwy o sgiliau na gweithlu uniaith. Byddai hyn yn cydfynd â strategaeth Llywodraeth y Cynulliad o bwysleisio gwerth yr 'economi gwybodaeth'. Ymhellach, mae polisiau cryf o blaid iaith yn creu marchnadoedd mewnol newydd sydd y tu hwnt i gyrraedd cystadleuwyr allanol, gan roi mantais i ddiwydiant cynhenid.

b. Y Sector Gyhoeddus

Wrth roi sylw i'r sector breifat, nid yw Cymdeithas yr Iaith yn awgrymu bod popeth wrth ein bodd yn y sector gyhoeddus. Hon yw'r sector a gafodd ei heffeithio fwyaf gan Ddeddf Iaith 1993, gan fod disgwyl i gyrff cyhoeddus gyflwyno cynlluniau iaith i gael eu cymeradwyo gan Fwrdd yr Iaith. Tra bo hyn yn awgrymu fod elfen o awdurdod yn perthyn i'r ddeddf, yn ymarferol mae pethau yn wahanol iawn. Yn gyffredinol, caiff y pwyslais ei roi ar beidio â symud yn rhy gyflym, gan osgoi gwrthio gormod rhag digio'r corff dan sylw. O ganlyniad, mae'r drefn yn gweithio o blaid y 'darparwr' yn hytrach nag o blaid y Gymraeg. Yn y pen draw, golyga hyn fod y broses o ddatblygu polisi iaith yn troi i fod yn ddim mwy nag ymarfer gweinyddol arwynebol y mae'n rhaid i gyrff cyhoeddus ei gyflawni. Ychydig o ystyriaeth a roddir i oblygiadau mabwysiadu cynllun iaith. Ar y cyfan, ystyrir bod derbyn tystysgrif gan Fwrdd yr Iaith a chyflogi swyddog iaith ynghyd â chyfieithydd neu ddau yn ddigon.

Dim ond Cyngor Gwynedd, o blith holl Awdurdodau Lleol Cymru sydd wedi mabwysiadu'r Gymraeg fel yr iaith weinyddol fewnol. Golyga hyn mai iaith i gyfeithu iddi yw'r Gymraeg ym maes Awdurdodau Lleol Cymru ac nid oes disgwyl i swyddogion ddefnyddio'r Gymraeg yn eu gwaith o ddydd i ddydd heblaw mewn modd tocenistaidd iawn. Cred Cymdeithas yr Iaith y dylai Deddf Iaith Newydd osod disgwyliad ar Awdurdodau Lleol Cymru ynghyd â chyrrff cyhoeddus eraill fabwysiadau polisiau o weithio tuag at weinyddu'n fewnol yn Gymraeg. Dyma'r ffordd fwyaf effeithiol i sicrhau bod y cyhoedd yn medru ymwneud â chyrrff cyhoeddus yn Gymraeg gan dderbyn gwasanaethau yn Gymraeg fel mater o drefn.

Wrth gwrs, ar hyn o bryd rhan sylfaenol o'r broblem yw'r ffaith nad oes unrhyw drefn gyfreithiol yn bodoli ar gyfer cosbi'r sawl sydd yn torri eu Cynlluniau Iaith. Golyga hyn nad oes ystyriaeth ddifrifol i oblygiadau mabwysiadu cynllun iaith ac felly – dros ddeng mlynedd ers pasio'r Ddeddf Iaith Gymraeg ym 1993 – mae'r Gymraeg yn parhau yn isel ar restr flaenoriaethau y mwyafrif o gyrff cyhoeddus.

Felly law yn llaw â delio â'r sector breifat, rhaid i ddeddfwriaeth newydd ddelio yn fwy trylwyr â'r sector gyhoeddus hefyd, drwy osod allan disgwyliadau mwy bellgyrhaeddol a chynhwysfawr yn y rheoliadau na'r hyn sy'n bodoli ar hyn o bryd. Ond, bod hynny oll yn digwydd ar sail yr egwyddor mai natur y gwasanaeth ac nid statws y darparwr sy'n bwysig. Mae hyn yn arbennig o bwysig wrth ystyried bod cyrrff cyhoeddus erbyn hyn yn darparu rhan fawr o'u gwasanaethau trwy gyfrwng cytundebau gyda darparwyr preifat a gwirfoddol.

c. Y Sector Wirfoddol

Ar hyn o bryd, nid oes gofyn i'r sector wirfoddol gydymfurffio'n ffurfiol â gofynion Deddf yr Iaith Gymraeg (1993). Wrth gwrs, erbyn hyn, mae maint cyfraniad a dylanwad y sector wirfoddol yn enfawr ym mywyd Cymru mewn sawl ffordd.

Araf iawn fu cynnydd defnydd y Gymraeg yn y sector. Ceir nifer o gyrff sydd wedi datblygu Cynlluniau Iaith. Ond yn aml mae mudiadau bychain gwirfoddol yn gwrthod datblygu gwasanaethau a gweithgareddau dwyieithog gan gyfeirio at y gost fel rhwystr penodol. Mae angen cymorth ymarferol sylweddol ar y sector yn nhermau

cefnogaeth ariannol drwy grant ac yn nhermau cyngor a gwybodaeth. Fodd bynnag, mae hefyd angen bod yn gwbl glir o'r hyn a ddisgwyllir yn nhermau sicrhau cyfiawnder i'r Gymraeg. Yn sgil tystiolaeth y degawd diwethaf ni ellir dibynnu ar ewylllys da yn unig yn y sector.

Rhaid i Ddeddf Iaith Newydd gynnwys y sector wirfoddol o dan yr egwyddor mai natur y gwasanaeth sy'n bwysig ac nid statws y darparwr.

Pwyntiau Gweithredu

Creu Comisiynydd y Gymraeg

Mae llwyddiant Comisiynydd Plant Cymru fel amddiffynydd dros ddiogelwch a lles plant ynghyd â bwriadau Llywodraeth y Cynulliad i greu Comisiynydd Pobl Hŷn yn dangos pwysigrwydd yr alwad dros greu Comisiynydd y Gymraeg.

O osod mesur Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer Dyfarnydd Cynlluniau Iaith Gymraeg ochr yn llall â swyddi'r Comisiynyddion daw diffyg uchelgais y Llywodraeth ym maes y Gymraeg yn amlwg.

Byddai Comisiynydd y Gymraeg yn bwynt ffocws unigryw ac annibynnol a fyddai'n gweithredu gyda grym i siarad ac ymyrryd ym mhob maes sy'n berthnasol i'r Gymraeg; addysg, tai a chynllunio, yr economi, diwylliant a hamdden, iechyd a gofal cymdeithasol gan gymryd camau pendant i sicrhau hawliau i siaradwyr Cymraeg a chymunedau Cymraeg.

Ymhlith dyletswyddau'r Comisiynydd fydd;

- ☛ ymchwilio i honiadau o ddiffyg cydymffurfiaeth â'r ddeddf iaith newydd
- ☛ helpu unigolion a chyrff sy'n barnu eu bod wedi cael cam o ran hawliau iaith i wneud cwyn neu ddwyn achos
- ☛ rhoi cyngor a gwybodaeth i bobl Cymru am eu hawliau iaith
- ☛ adrodd ar unrhyw fater sydd o fewn swyddogaethau'r comisiynydd gan gynnwys rhoi barn i'r Cynulliad Cenedlaethol ar ddeddfwriaeth a all effeithio ar ddyfodol y Gymraeg yn gyffredinol a hawliau siaradwyr a chymunedau Cymraeg yn benodol.

Rhagwelir y Byddai swyddfa'r Comisiynydd yn datblygu ac yn dylanwadu ar waith Bwrdd yr Iaith Gymraeg.

Sefydlu Cyngor y Gymraeg

Er mwyn sicrhau cyfranogiad ystod helaeth o gyrff statudol, gwirfoddol a phreifat yn y gwaith o greu dyfodol i'r Gymraeg, galwn am sefydlu Cyngor y Gymraeg, sef fforwm ar gyfer y Gymraeg sy'n ddemocrataidd a chynhwysol. Gallai fforwm o'r fath

weithredu fel corff ymgynghorol i'r Llywodraeth ym maes y Gymraeg a byddai'n sicrhau partneriaeth rhwng y gwahanol sectorau er budd y Gymraeg.

Ymhlith dyletswyddau'r Cyngor fydd;

- ☛ cyd-drefnu ymdrechion dros y Gymraeg
- ☛ diogelu strategaeth hirdymor dros y Gymraeg
- ☛ derbyn sylwadau gan unigolion a grwpiau am faterion sy'n ymwneud â'r Gymraeg
- ☛ rhoi cyngor i'r Comisiynydd a Llywodraeth y Cynulliad ar faterion sy'n ymwneud â'r Gymraeg
- ☛ comisiynu ymchwil ar agweddau ar sefyllfa bresennol y Gymraeg.

Prin iawn ar hyn o bryd yw'r cyfle i drafod pwyntiau gweithredu ar lefel strategol yn genedlaethol neu yn lleol ym maes y Gymraeg. Byddai Cymdeithas yr Iaith Gymraeg yn croesawu cyfle i gymryd rhan yn y drafodaeth eang, deinamig a bwriadus sydd ei angen ar draws Cymru er sicrhau dyfodol i'r Gymraeg. Rhoddwyd ymrwymiad ar Lywodraeth y Cynulliad i ymgynghori ar swyddogaethau a strwythur posibl i Fforwm Iaith yn Iaith Pawb (2003). Cynhaliwyd ymgynghoriad yn 2004, ond rydym ni'n dal i aros i glywed a fydd Llywodraeth y Cynulliad yn gwneud unrhyw beth concriid ar sail yr ymrwymiad ai peidio.

4. Casgliadau

I grynhoi:

- ☛ Mae gwendidau sylfaenol yn perthyn i'r ddeddf iaith bresennol – mae'n gwbl annigonol i ddiwallu anghenion heddiw. Nid oes gan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 y gallu i warchod buddiannau siaradwyr Cymraeg nag i normaleiddio'r defnydd o'r iaith.
- ☛ Yn wyneb datblygiadau mewn technoleg a thueddiadau globaleiddio rydym wedi colli mewn sawl maes yr hyn a enillwyd dros y blynyddoedd diwethaf yn nhermau statws real y Gymraeg.
- ☛ Dyletswydd unigryw Cynulliad Cymru yw trafod ac arwain ddeddfwriaeth ym maes yr iaith Gymraeg ac mae angen i'r Llywodraeth ysgwyddo'r cyfrifoldeb hwnnw ar fyrder.
- ☛ Wrth i'r Cynulliad ddileu Bwrdd yr Iaith Gymraeg – prif ddiben pasio Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 - agorir y drws ar gyfle euraidd ac unigryw i drin a thrafod gwir anghenion deddfu dros y Gymraeg yn nhermau'r unfed ganrif ar ugain.

☛ Galwn am Ddeddf Iaith Newydd fydd yn; datgan mai'r Gymraeg yw priod iaith Cymru, yn rhoi statws swyddogol diamwys i'r Gymraeg yn sefydlu hawliau i'r Gymraeg, ac i bobl Cymru fedru defnyddio'r Gymraeg ym mhob agwedd ar fywyd.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn datgan; *"ein desiyfiad - Cymru gwbl ddwyieithog, sef gwlad lle y gall pobl ddewis byw eu bywydau naill ai drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg neu'r ddwy iaith"*¹⁵ Dyma gam mawr ymlaen o egwyddorion 'Cymraeg os oes gwir angen', a wrthodwyd gan Hughes Parry yn 1965, ac egwyddor dilynrydd cyfartal, sef yr egwyddor a fabwysiadodd Hughes Parry.

Yn wir, mae geiriau Iaith Pawb (2003) yn pledio achos *'yr egwyddor dwyieithedd*. Dyma a ddywed adroddiad Hughes Parry am yr egwyddor honno: *' Yr oedd ...nifer bach iawn o bobl...a ddaliai na fyddent yn hollol wrth eu bodd heb fod cydnabod Cymru'n wlad ddwyieithog, hynny yw, hyd nes bob pob trafodaeth gyfreithiol a gweinyddol yn Saesneg ac yn Gymraeg ochr yn ochr'*.

Cydnabyddwn fod diffiniad Iaith Pawb o Gymru ddwyieithog yn helaethach byth nag eiddo argymellion adroddiad Hughes Parry, gan nad yw'n ymglyfyngu i'r sector cyhoeddus (cyfreithiol a gweinyddol) yn unig, ond yn sôn am ganiatau pobl Cymru i fyw bywydau drwy'r Gymraeg yn unig os dyna eu dewis. Ond, os yw Llywodraeth y Cynulliad yn gwrthod gorfodi'r sectorau preifat a gwirfoddol i ddarparu gwasanaethau Cymraeg drwy ddeddf, yna geiriau gwag yn unig fydd rhain ac ni fydd modd gwireddu egwyddor dwyieithiedd.

Am gopiau pellach o'r Papur hwn neu unrhyw ymholiadau cysylltwch â Cymdeithas yr Iaith Gymraeg: 01970 624501 – dafydd@cymdeithas.com

¹⁵ Iaith Pawb, Strategaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer yr iaith Gymraeg, 2003